OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 977 (Cy. 231)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379 (Cy. 252)).

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r dyddiad yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/1 (Cy. 1)) er mwyn estyn effaith y Rheoliadau hynny, sydd, mewn perthynas â mewnforion sy'n tarddu o sefydliadau a leolir yn Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir, neu a gynhyrchir ynddynt, yn atal dros dro y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru fod wedi eu rhewi'n ddwfn. Gosodir y gofyniad hwnnw gan Erthygl 3(3) o Benderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC dyddiedig 8 Medi 2000 sy'n gosod yr amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ardystio milfeddygol ar gyfer mewnforio paratoadau cig i'r Gymuned o drydydd gwledydd (EUDN 2000/572). Estynnir yr ataliad hyd hanner nos ar 31 Rhagfyr 2021. Cafodd y dyddiad ei ddiwygio yn flaenorol gan Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/376 (Cy. 117)).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 977 (W. 231)

# EXITING THE EUROPEAN UNION, WALES

# FOOD, WALES

## The Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (EU Exit) (Amendment) (No. 2) Regulations 2021

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made in exercise of the powers conferred by paragraph 11A(1) of Schedule 2 to the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/2379 (W. 252)).

Regulation 2 amends the date in regulation 3(1) of the Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (EU Exit) Regulations 2021 (S.I. 2021/1 (W. 1)) in order to extend the effect of those Regulations, which, in relation to imports originating from or produced in, establishments situated in EEA member States, the Faroe Islands, Greenland or Switzerland, temporarily suspend the requirement for meat preparations imported into Wales to be deep frozen. That requirement is imposed by Article 3(3) of Commission Decision 2000/572/EC of 8 September 2000 laying down the animal and public health and veterinary certification conditions for imports of meat preparations into the Community from third countries (EUDN 2000/572). The extension of the suspension is until midnight on 31 December 2021. The date had previously been amended by the Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (EU Exit) (Amendment) Regulations 2021 (S.I. 2021/376 (W. 117)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 977 (Cy. 231)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Medi 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *3 Medi 2021* |
| *Yn dod i rym* | *29 Medi 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Medi 2021.

(**1**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252). Mewnosodir paragraff 11A o Atodlen 2 gan reoliad 2(2) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1639 (Cy. 344)).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 977 (W. 231)

# EXITING THE EUROPEAN UNION, WALES

# FOOD, WALES

## The Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (EU Exit) (Amendment) (No. 2) Regulations 2021

| | |
|---|---|
| *Made* | *2 September 2021* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *3 September 2021* |
| *Coming into force* | *29 September 2021* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by paragraph 11A(1) of Schedule 2 to the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011(**1**), make the following Regulations.

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (EU Exit) (Amendment) (No. 2) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force on 29 September 2021.

(**1**) S.I. 2011/2379 (W. 252). Paragraph 11A of Schedule 2 is inserted by regulation 2(2) of the Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc.) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020 (S.I. 2020/1639 (W. 344)).

**Diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

**2.** Yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021(**1**), yn lle "30 Medi 2021" rhodder "31 Rhagfyr 2021".

**Amendment to the Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (EU Exit) Regulations 2021**

**2.** In regulation 3(1) of the Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (EU Exit) Regulations 2021(**1**), for "30 September 2021" substitute "31 December 2021".

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
2 Medi 2021

Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd, one of the Welsh Ministers
2 September 2021

©ⓗHawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2021/1 (Cy. 1), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/376 (Cy. 117).

(**1**) S.I. 2021/1 (W. 1), as amended by S.I. 2021/376 (W. 117).

ISBN 978-0-348-39109-1

9 780348 391091

£4.90